

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	19 Rhagfyr 2013
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau i Blant /Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Busnes
Awdur yr Adroddiad:	Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Busnes
Teitl:	Fframwaith Gwasanaethau Integredig i Bobl Hŷn

1. Am beth yw mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am fwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn a chanddynt anghenion cymhleth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch y ddogfen Datganiad o Fwriad drafft sydd ynghlwm (atodiad 1) y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ei gyflwyno erbyn diwedd mis Ionawr 2014. Mae'r datganiad yn ddogfen ranbarthol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, ond mae'n tynnu sylw at rai enghreifftiau o arfer da sydd wedi cael eu datblygu yn Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn cyflwyno sylwadau i gyfarfod y Cabinet ar 14 Ionawr 2014 ar gynnwys y Datganiad o Fwriad drafft sydd ynghlwm i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar sail ranbarthol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae dogfen Llywodraeth Cymru sydd ynghlwm, "*Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig*" (*Gorffennaf 2013*) (atodiad 2), yn datgan, yn achos pobl hŷn a chanddynt anghenion cymhleth, bwriad i 'roi diwedd ar y gofal tameidiog' sy'n 'wastraff o adnoddau, ymdrech a chyfleoedd' ac mae'n nodi 'gofynion hanfodol y mae'n rhaid eu sefydlu fel y model safonol trwy Gymru'.

4.2 Mae'r ddogfen yn diffinio gofal integredig i bobl hŷn sydd angen gofal a chymorth fel a ganlyn:

"Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gennyf i gyda phobl yn cydweithio i'm deall i, fy nheulu a'm gofalwr(wyr), gan roi rheolaeth i mi, a dod â gwasanaethau ynghyd i sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i mi."

Ar lefel ranbarthol, rydym hefyd wedi awgrymu diffiniad trefniadol fel a ganlyn:

“System sengl i asesu anghenion, comisiynu, a/neu ddarparu gwasanaethau gyda’r nod o hybu cysondeb a chydweithio rhwng y sectorau gofal a gwella”.
(Ham, 2008)

- 4.3 Mae dogfen Llywodraeth Cymru yn gofyn am weithredu ar lefel ranbarthol ac mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y camau hynny y mae’n rhaid eu cymryd erbyn diwedd Ionawr 2014.
- 4.4 Rhaid i’r holl bartneriaid lleol gymeradwyo a chyhoeddi Datganiad o Fwriad ynghylch Gofal Integredig, gan ddangos yn glir:
- sut y byddant yn adeiladu gweithlu priodol ar draws yr holl bartneriaid fel cyfle cynnar i wella profiad y dinesydd;
 - sut y byddant yn canolbwyntio’n ddiwyro ar ddarparu gwasanaethau lleol sydd wedi’u cyd-gynhyrchu ac sy’n canolbwyntio ar y dinesydd, gan ganolbwyntio ar rôl ganolog gwasanaethau gofal sylfaenol wrth ddarparu gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.
 - sut y byddant yn cynnal trefniadau partneriaeth lleol cadarn sy’n adlewyrchu parodrwydd i ddirprwyo cyfrifoldebau;
 - sut y byddant yn sicrhau arweinyddiaeth ac ymrwymiad ar bob lefel ac ar draws pob sector, gyda threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd penodol;
 - sut y bydd un cynllun comisiynu’n cael ei weithredu gan yr holl bartneriaid, gan symud dros amser i ddull cyson trwy Gymru;
 - sut y bydd trefn o reoli adnoddau ar y cyd yn cael ei rheoli trwy opsiynau, gan gynnwys fframwaith llywodraethu ariannol; amcanion a chynlluniau comisiynu ar y cyd; cyllidebau wedi eu cronni a/neu integredig;
 - y trefniadau cyllidebau cyfun sydd ar waith ar hyn o bryd, yn ogystal â chynlluniau i ymestyn y dull hwn .
- 4.5 Hefyd, wrth ddatblygu’r gwasanaeth, dylai partneriaid ddatblygu mesurau canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol lleol a rennir a fydd yn dangos effaith integreiddio ac yn symbylu cynnydd pellach.
- 4.6 Yn genedlaethol, cefnogir y gwaith o ddatblygu’r modd y caiff gwasanaethau integredig eu cyflenwi i bawb a chanddynt anghenion gofal a chymorth cymhleth gan gyrff proffesiynol perthnasol megis Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS), a hynny fel ffordd o wella canlyniadau ar gyfer pobl mewn angen tra’n rheoli’r galwadau cynyddol a ddaw yn sgil newid demograffig a gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth Leol.
- 4.7 Mae’r datganiad rhanbarthol yn nodi sawl bwriad ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys ymchwiliad i’r canlynol:
- Cryfhau trefniadau llywodraethu,
 - Adolygu partneriaethau presennol,
 - Datblygu strategaethau comisiynu ar y cyd,
 - Nodi adnoddau presennol ar lefelau Ardal ac ymchwilio i’r posibilrwydd y gall cyllidebau cyfun ddarparu gwell canlyniadau i unigolion a sefydliadau,
 - Datblygu timau a gydleolir â threfniadau rheoli llinell sengl,
 - Datblygu system wybodaeth a rennir,
 - Datblygu gwasanaethau sydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac sydd wedi’u hanelu at y dinesydd,

- Gweithredu Pwynt Mynediad Sengl yn y sir,
- Gweithredu Canllawiau newydd Llywodraeth Cymru “*Proses Asesu Integredig i Bobl Hŷn*”.

Bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol a ddaw yn sgil yr ymchwiliadau hyn yn cael eu hadrodd gerbron y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet er mwyn iddynt roi eu sylwadau a dod i benderfyniad.

4.8 Yn lleol, mae gan Sir Ddinbych hanes o weithio ar y cyd â'r gwasanaethau iechyd i gyflwyno nifer o ddatblygiadau gwasanaeth llwyddiannus, yn cynnwys:

- Timau Iechyd Meddwl Integredig
- Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych
- Gwasanaeth Offer Cymunedol
- Gwasanaeth Anabledd Dysgu a Gydleolir
- Cynllunio Tymhorol

ac nid yw'r bwriadau yn y datganiad yn cael effaith ar ddatblygiadau i'r dyfodol yn lleol, megis y Pwynt Mynediad Sengl, timau ardal lleol neu gynlluniau i gyflwyno Gwell Gofal yn y Cartref.

4.9 Wrth ddatblygu'r tîm a gydleolir yn Hafan Lles, y bwriad gwreiddiol oedd dechrau ar broses integreiddio mwy ffurfiol yng Ngogledd Sir Ddinbych. Gohiriwyd y cynllun hwn am y tro pan sefydlwyd y Bwrdd Iechyd newydd ond mae cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru wedi rhoi hwb i ni ailedrych ar hyn a hefyd i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu materion sy'n wynebu ardaloedd gwledig.

4.10 Yn ogystal, mae Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cytuno ar y trefniadau i ddarparu cam cyntaf Pwynt Mynediad Sengl i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hwn wedi ei roi ar waith erbyn mis Ebrill 2014 ac mae'n elfen greiddiol o'r cynlluniau i ddarparu gwasanaethau integredig.

4.11 Fel rhan o'r gwaith ar gyfer y Pwynt Mynediad Sengl, datblygwyd nifer o fesurau canlyniadau a rennir a fydd yn ein galluogi i weld sut y mae integreiddio wedi bod o gymorth i bobl mewn angen yn ogystal â sefydliadau. Y prif gwestiynau yw:

- A fydd yn gwella ansawdd bywyd?
- A fydd yn gwella ansawdd gofal?
- A fydd yn gwella profiad y dinesydd?
- A fydd yn gwneud y gorau o arbedion effeithlonrwydd?

4.12 Mae'r holl waith yn cael ei lywodraethu gan fframwaith sy'n cynnwys Timau Arweinyddiaeth Ardal a Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych, y mae uwch reolwyr a gwleidyddion y Cyngor ynghyd ag uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd yn aelodau ohonynt.

4.13 Ysgrifennwyd y datganiad ar sail ranbarthol, is-ranbarthol a chenedlaethol, gan gydnabod, ar adeg ei ysgrifennu, na dderbyniwyd unrhyw ddatganiad gan

y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus ar drefniadau llywodraeth leol yn y dyfodol.

4.14 Er ein bod yn cydnabod nad oes un model ar draws Gogledd Cymru ar gyfer gwasanaethau integredig, fel y gŵyr aelodau'r grŵp, mae cydrannau'r model gwasanaeth a nodir yn y datganiad yn cwrdd â 4 o'r prif themâu a nodwyd gan bobl hŷn pan ofynnwyd iddynt am yr anawsterau roeddynt yn eu hwynebu o ran gwasanaethau, sef:

- cydgysylltu gofal,
- dilyniant gofal,
- systemau atgyfeirio a chyfathrebu syml a chyson,
- mynediad i wasanaethau

5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn cyfrannu at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- Amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a sicrhau y medrent fyw mor annibynnol ag y bo modd
- Moderneiddio'r cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a pha effaith fydd hyn yn ei gael ar wasanaethau eraill?

Bwriad integreiddio yw lleihau costau rheoli o fewn gwasanaethau cymunedol ac fe adlewyrchir hyn yng nghynllun y gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a Busnes dros y 3 blynedd nesaf.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) ynghylch y penderfyniad? Dylid cynnwys templad yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Bydd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei wneud fel rhan o'r ymchwiliad, gyda phwyslais arbennig ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac ardaloedd gwledig.

8. Faint o ymgynghori a fu gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Datblygwyd y Datganiad o Fwriad drafft yn atodiad 1 gan grŵp aml-asiantaethol a oedd yn cynnwys Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Busnes Sir Ddinbych. Trafodwyd y datganiad yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol a bydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Cabinet ar 14 Ionawr i'w benderfynu'n derfynol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd angen asesu manylion datblygu darpariaeth integredig wrth i gynigion manwl ddod i'r amlwg er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i drefniadau llywodraethu ac ariannol a bod y costau yn cael eu hamsugo'n gyfartal ymhlith y partneriaid.

10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Wrth gydweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu gwasanaethau integredig gall risgiau ddod i'r amlwg yn sgil rhannu cyfrifoldeb am wahanol swyddogaethau trefniadol. Gellir lliniaru'r risgiau hyn trwy fframweithiau llywodraethu effeithiol gan gynnwys Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Erthygl 6.3.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.
S.111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Swyddog Cyswllt:

Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Busnes

Rhif ffôn: 01824 706654